**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 2il Medi 2025 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach. (newid dyddiad)</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) , Lynford Thomas, Alan Henson, Hywel Ifans, Lyn Williams, Dan Evans, Wendy Lloyd Lewis, Euros Davies, Gerwyn Owen,Melinda Williams,

Y Cyng. Sir Ceris Jones.

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Glyn Davies

2. PERSONOL – dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL –** dim i'w datgelu

4. **CADARNHAU COFNODION 8/07/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Euros Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Alan Henson a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

   **11a.** Mae mainc Bro Henllys yn ei le a charden o ddiolch wedi'i derbyn gan y trigolion.
   **11c. Go Safe** wedi ymateb i gŵyn cyflymder traffig yng Nghribyn a'r fan wedi bod yn y pentre yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst.
   **11f. Charnwood Dihewyd**. Yn dilyn ymweliad gan aelod o Adran y Priffyrdd cadarnhawyd fod y cerrig o fewn y terfyne â ganiateir. Bydd yn monitro'r sefyllfa bob rhyw dris mis.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**
   Mis tawel o ran cyfarfodydd ond nodwyd y canlynol: disgwylir i drafodaeth am ddyfodol ysgolion Felinfach a Dihewyd ddigwydd gan y Cabinet ym mis Hydref; nodwyd bod newid wedi bod yn nheithiau'r bysiau ysgol sy'n cludo disgyblion i Aberaeron.

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU –** ni dderbyniwyd adroddiad

8. **CYLLID**

   i. Tal y Clerc mis Gorffennaf ac Awst £228.73
   ii. Lloyds Banc Ffioedd : **10/6/25 – 9/7/25 £5.77** (4 siec @0.50c – gostyngiad o 1.52) 2 x Electronic Payments 0.20c a £4.25
   iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd £**5.39** **10/6/25 – 9/7/25** – 3 x Siec @50c gostyngiad o £1.36 + £4.25

iv. Lloyds Bank Ffioedd **10/7/25 – 9/8/25** **£4.25** (cyfri'r Cadeirydd)
v. Lloyds Bank Ffioedd Cyfri Cyfredol **10/7/25 – 9/8/25** = £**5.01** (dwy siec ac un taliad electroneg + ffi)
vi. Praesept 2 Gorffennaf 2025 £3316.67
vii. Un Llais Cymru Hyfforddiant £84.00
viii. Solway Direct Y Fainc ££444 (yn cynnwys TAW a £60 am gerfio enw'r Cyngor)

**9. CYLLIDEB HANNER BLWYDDYN**

Dosbarthwyd taflen yn nodi'r gwariant hyd at 31 Awst 2025 a'r gwariant arfaethedig hyd at 31 Mawrth 2026. Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y gyllideb yn unfrydol.

**10. CYNLLUNIO**

i. **A250625 Rhydyfran Cottage, Cribyn.** Cais am baneli solar daear. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais yn unfrydol.

**11. GOHEBIAETH**

I. Derbyniwyd nodyn o ddiolch a rhaglen Eisteddfod Felinfach gan Meinir Lewis yn diolch am y rhoddion tuag at Eisteddfodau Dihewyd a Felinfach.
II. Derbyniwyd rhaglen Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed fel diolch am y rhodd o £25

**12. UNRHYW FATER ARALL**

a. Cwblhawyd y cwrs i gynghorwyr newydd gan Y Cyng. Wendy Lloyd Lewis a'r Cyng. Euros Davies.
b. Cyfeiriwyd at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru parthed gwahanu gwastraff. Y linc gan y Clerc i unrhyw un â diddordeb i ymateb.
c. Nododd y Cyng. Lynford Thomas bod arwydd pentre Felinfach wedi dod i'r golwg. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Sir unwaith eto i'w hatgoffa bod angen ail-osod yr arwydd.
d. Nododd y Cyng. Lyn Williams bod angen sylw ar y bompren sydd yn croesi nant Bran ar y droedffordd o'r ysgol yn ogystal â'r bont fach sy'n croesi o'r llwybr i'r cae. **Penderfynwyd** cysylltu â'r adran berthnasol.

**13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Hydref 14eg Neuadd Dihewyd